Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

# Cyllid ar gyfer y prosiect peilot Microgymwysterau Prentisiaeth 2025-26

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 06 Tachwedd 2025 |
| **Cyfeirnod:** | Medr/2025/29 |

| | |
|---|---|
| **At:** | Ddeiliaid Contract Prentisiaeth (ACH) |
| **Ymateber erbyn:** | Dim ymateb yn ofynnol |
| **Rhagor o wybodaeth:** | Richard Tobutt, Uwch Reolwr Polisi Prentisiaethau \| prentisiaethau@medr.cymru |


**Crynodeb:**

Mae'r cyhoeddiad hwn yn nodi'r trefniadau a'r amseriad ar gyfer cyllid ychwanegol o **£272,559** a fydd yn cael ei ddarparu gan Medr i Ddeiliaid Contract Prentisiaeth ar gyfer y Prosiect Peilot Prentisiaethau Dysgu Seiliedig-ar-Waith ym mlwyddyn ariannol 2025-26.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu'r cyllid hwn i Medr ym mlwyddyn ariannol 2025-26, ac mae'n cyd-fynd yn uniongyrchol â'r rhaglen brentisiaethau a gomisiynwyd ar gyfer 2025-26. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn cael ei dalu'n fisol yn ôl-ddyledus a bydd yn cyd-fynd â gofynion cytundebol presennol.



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

### Symiau ac amseriadau'r cyllid ychwanegol

Bydd dyraniad Dysgu Seiliedig-ar-Waith o **£272,559.47** yn cael ei roi i Ddeiliaid Contract Prentisiaeth (ACH) i ddarparu cyrsiau Microgymwysterau byrion ar gyfer prentisiaid presennol fel a ddangosir yn y tabl isod. Cytunwyd ar y dyraniadau yn dilyn proses mynegi diddordeb a roddwyd ar waith gan Medr.

| Deiliad Contract Prentisiaeth | Cyfraniad ar gyfer darparu cyrsiau Microgymwysterau |
|---|---|
| Associated Community Training Ltd | £10,000.00 |
| B-wbl Coleg Sir Benfro | £66,360.00 |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | £43,330.00 |
| Coleg Cambria | £18,352.40 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | £41,805.00 |
| Grŵp Llandrillo Menai | £53,487.07 |
| Academi Sgiliau Cymru yng Ngrŵp Colegau CNPT | £39,225.00 |
| **Cyfanswm** | **£272,559.47** |

### Gofynion allweddol a chymhwystra

Mae'r cyllid hwn yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 21 Hydref 2025 a 31 Mawrth 2026. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn cael ei dalu'n fisol yn ôl-ddyledus a bydd yn cyd-fynd â gofynion cytundebol presennol.

Rhaid i gymhwystra dysgwyr gyd-fynd yn llawn â'r meini prawf a nodir ym mhrif fanyleb y rhaglen brentisiaethau a gyhoeddwyd ar wefan Medr. Ni fydd unrhyw eithriadau i hyn yn gymwys.

### Rhestr o Gyrsiau Microgymwysterau Prentisiaeth

Mae'r ddogfen ganlynol yn nodi'r cyrsiau sy'n gymwys ar gyfer cyllid (gyda gwerthoedd cyllid). Mae'r rhestr o gyrsiau'n cyd-fynd â'r rhaglen Cyfrif Dysgu Personol (PLA) ac fe'i datblygwyd yn dilyn ymgynghori â'r Deiliaid Contract Prentisiaeth, cyrff diwydiant a rhanddeiliaid allweddol.

Ni fydd unrhyw gyrsiau'n cael cyllid y tu hwnt i'r cap o £1,500 y pen nac os nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rhestr gymeradwy o gymwysterau a chyrsiau sy'n amgaeëdig yn **Atodiad 1 sydd yn Atodiad A,** 'Canllaw'r Prosiect Peilot Microgymwysterau Prentisiaeth'. Ni fydd unrhyw eithriadau i'r gofyniad hwn.

Gallai cyrsiau gael eu hychwanegu at y rhestr neu gael eu tynnu oddi arni, ac mae'r broses ar gyfer gofyn am gyrsiau newydd wedi cael ei rhannu gyda'r Deiliaid Contract Prentisiaeth. Rhaid i bob cymhwyster a chwrs gael ei gymeradwyo gan Medr a rhaid bod gwerthoedd cyllid wedi cael eu cytuno cyn y darperir cyrsiau ar gyfer dysgwyr. Ni fydd unrhyw eithriadau i hyn yn gymwys.

www.medr.cymru

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**